



ECAD7004C: DADANSODDI DATA ANSODDOL



DATA ANSODDOL A MEINTIOL

Mae data meintiol yn cyfeirio at wybodaeth rifiadol a gynhrychir drwy'r broses ymchwil y gellir ei deall, ei chynrychioli a'i dadansoddi'n ystadegol.

Mae data ansoddol yn an-rifiadol (e.e. testun, delwedd, sain) ac mae'n cynnig cyfrif disgrifiadol o'r ffenomen sy'n cael ei astudio i'r ymchwilydd.



DADANSODDI DATA

Gellir dadansoddi data'n wahanol yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir i'w ddadansoddi.

Os ydych wedi casglu data ansoddol, mae nifer o ffyrdd y gallech chi ddadansoddi'r data yn dibynnu ar y math o ddata rydych chi wedi'i gasglu.



Llun gan [Arie Wubben](#) ar [Unsplash](#)



DADANSODDI DATA

Dylai'r ffordd rydych chi'n dadansoddi'r data fodloni nod(au) yr ymchwil – bod yn addas i'w bwrpas (gweler Cohen et al., 2011)

h.y. beth ydych chi eisiau i'r data ei wneud? Er enghraifft:

Disgrifio

Crynhoi

Dehongli

Creu themâu

Deall unigolion

Deall grwpiau

Codi materion

Arddangos

Archwilio?



GWEITHGAREDD

Ewch yn ôl at eich cwestiwn ymchwil.

Pa un o'r elfennau hyn (o'r sleid flaenorol) ydych chi'n ceisio eu hateb?

DADANSODDI'R HYN RYDYN NI'N EI DDARLLEN


Dadansoddi Cynnwys (Content Analysis) - defnyddir i adnabod y patrymau sy'n deillio o destun, drwy grwpio cynnwys yn eiriau, cysyniadau, a themâu

Dadansoddiad Naratif (Narrative Analysis) - mae'n canolbwyntio ar y straeon y mae pobl yn eu hadrodd a'r iaith y maen nhw'n ei defnyddio i wneud synnwyr ohonynt

Dadansoddi Disgwrs (Discourse Analysis) - defnyddir i gael dealltwriaeth drylwyr o'r deinameg weidyddol, diwylliannol a phŵer sy'n bodoli mewn sefyllfaoedd penodol.

'Grounded Theory' - yn llunio damcaniaeth o amgylch un achos data yn seiliedig ar ddata gwirioneddol ac nid yn gwbl ddamcaniaethol. Yna, gellir archwilio achosion ychwanegol i weld a ydyn nhw'n berthnasol a gallant ychwanegu at y ddamcaniaeth wreiddiol.

Dadansoddiad Thematig (Thematic Analysis) - defnyddir i dwyllo'r ystyr y tu ôl i'r geiriau y mae pobl yn eu defnyddio. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ddarganfod themâu ailadroddus mewn testun.




Mae sawl opsiwn
ar gyfer
dadansoddi data
sy'n cynnwys
geiriau ar gael.

DADANSODDIAD THEMATIG

Dadansoddiad thematig yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o ddadansoddi o fewn ymchwil ansoddol.

Mae'n ddull dadansoddi data ansoddol sy'n cynnwys darllen drwy set ddata (megis trawsgrifiadau o gyfweiliadau) a nodi patrymau mewn ystyr ar draws y data i ddeillio themâu.



Tasg:

Darllenwch Macguire & Delahunt (2017) Doing a Thematic Analysis: A Practical, Step by Step Guide for Learning and Teaching Scholars, All Ireland Journal of Teaching and Learning in Education, Vol 9 (3).

Ar gael: <https://ojs.aishe.org/index.php/aishe-i/article/view/335> neu ar Moodle

YSTYRIED DADANSODDIAD THEMATIG

Cryfderau

Dull hyblyg o ddadansoddi ansoddol;

Yn galluogi ymchwilwyr i gynhyrchu
mewnwelediadau a chysyniadau
newydd sy'n deillio o ddata;

Dull hygyrch i ymchwilwyr newydd;

Gellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw
fath o ymchwil.

Cyfyngiadau

Llawer o wahanol ffyrdd o ddehongli
ystyr o'r set ddata;

Gallu teimlo'n frawychus i ddehongli pa
ddata sydd yn bwysig neu ddim yn
bwysig;

Gall gymryd llawer o amser.



SEFYLLFA'R YMCHWILYDD

Mae angen cydnabod sefyllfa drwy gydol y broses ymchwil. Bydd ein sefyllfa yn effeithio ar y data yr ydym yn ei ystyried a sut rydym yn ei ddehongli.


Ystyriwch y ffordd y gallai sefyllfa'r ymchwilydd effeithio ar ddadansoddi eich data?

Tasg dewisol:

Ar gyfer casglu a dadansoddi data ansoddol, efallai y byddwch yn dymuno darllen Braun a Clarke (2006) hefyd.

Pa faterion sydd wedi'u nodi yn yr erthygl hon?

DADANSODDIAD THEMATIG



Mae Braun a Clarke (2006, t.79) yn diffinio dadansoddiad thematig fel:

“method for identifying, analyzing and reporting patterns within data”.

Maent yn cynnig proses chwe cham ar gyfer cyflawni'r dadansoddiad hwn.

Gwyliwch y fideo yma am ragor o wybodaeth:

www.youtube.com/watch?v=rVMf1cbctYM



PROSES DADANSODDIAD THEMATIG:

1. Ymglyfarwyddo â'r data
2. Cynhyrchu codau rhagarweiniol i ddisgrifio'r data (codio agored)
3. Adnabod themâu – chwilio am batrymau neu themâu
4. Adolygu themâu i greu map thematig o'r dadansoddiad
5. Diffinio ac enwi themâu, gan gynnwys dadansoddiad parhaus sy'n adrodd y stori gyffredinol

(Braun and Clarke, 2006)

CODIO'CH DATA

Codio yw “how you define what the data you are analysing are about” (Gibbs, 2007). Mae'n broses o nodi darn o'r testun neu eitemau data eraill (ffotograff, delwedd), chwilio a nodi cysyniadau a dod o hyd i gysylltiadau rhyngddynt. Felly, nid labelu yn unig yw codio - mae'n cysylltu data â syniad yr ymchwiler ac yn ôl i ddata eraill.

Rydych yn anelu at drefnu'r data i mewn i 'ddarnau' hylaw fel y gallwch gymharu ymatebion perthnasol.

Figure 7 Coding interview data

1

Start by making a list of the particular things that you are interested in and give each one a name – these become your code labels. Alternatively or as well, you may assign each code a colour.

2

Select a code label and go through the interview notes (or transcript) and mark every time it occurs. How you do this is up to you - some people use hard copies, others do it on screen. Repeat this step with the other codes.

3

Repeat step two with all the interview notes.

(NFER, 2013, p.11)



ELFENNAU ERAILL I'W HYSTYRIED



Hygrededd (crediniaeth) – triongli dulliau, myfyrio ar ragfarn/rhagdybiaethau, gan ganiatáu i ddata 'siarad drosto'i hun'.



Dibynadwyedd (cysondeb) – Oes gwendidau yn yr offer casglu data? Ydych chi wedi defnyddio'r dull gorau i ateb cwestiwn?



Cadarnhau (gallu i ategu) – triongli i leihau rhagfarn ymchwilydd – a fyddai rhywun arall yn cyrraedd casgliadau tebyg?



Trosglwyddadwy (perthnasedd) – a oes digon o gyd-destun (data cyfoethog) i gyfleu ystyr yn ddilys? A all darllenwyr ddefnyddio hyn i ddatblygu dealltwriaeth ddofn?

SICRHAU DIBYNADWYEDD MEWN DATA ANSODDOL

(BLOOMBERG AND
VOLPE, 2019)

Gweler Ahmed, 2024 - The pillars of
trustworthiness in qualitative research (Moodle)

ADWEITHEDD A THRYLOYWDER

(REFLEXIVITY AND TRANSPARENCY)

Mae'n werth cofio na all unrhyw ymchwil fyth fod 100% yn ddilys neu'n ddibynadwy.

Er mwyn cynyddu lefelau dilysrwydd a dibynadwyedd, mae'n bwysig i ymchwilwyr fabwysiadu dull atblygol.

Mae hyn yn golygu bod angen i chi fod yn ymwybodol eich bod yn rhan o'r broses ymchwil ac na allwch fyth fod yn 100% wrthrychol (Berger, 2015). Rydym yn gweld hyn mewn trafodaethau am gryfderau a chyfyngiadau'r prosiect.

Peidiwch â phoeni am fod yn feirniadol am eich astudiaeth – disgwylir (a chroesawir) hynny.

Berger, R. (2015) Now I see it, now I don't: Researcher's position and reflexivity in qualitative research. *Qualitative Research*, 15(2), 219–234. doi:10.1177/1468794112468475

PARATOI AR GYFER YR ASEINIAD

Dull(iau) Cyflwyno a Dadansoddi Data

400

Dylech gynnwys gwybodaeth am unrhyw brosesau a gynhaliwyd gennych i sicrhau dibynadwyedd (hygrededd, trosglwyddiadadwyedd, dibynadwyedd a chadarnhad) os yw'n berthnasol.

Esboniwch y dull(au) rydych chi wedi'i ddefnyddio i gyflwyno'ch data. Cyfeiriwch at lenyddiaeth berthnasol i gefnogi eich penderfyniadau.

500

Y FFURFLEN FOESEG



Dulliau arfaethedig (uchafswm o 600 o eiriau)

Rhowch grynodeb byr o'r holl ddulliau y **gellid** eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesegol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny. Nid oes angen i chi gyfiawnhau'r dulliau yma, ond yn hytrach dylech ddisgrifio sut rydych chi'n bwriadu casglu'r data sydd eu hangen i gwblhau eich prosiect.

Gallwch gynnwys brawddeg neu ddwy yma hefyd.

CYFEIRNODAU

Berger, R. (2015) Now I see it, now I don't: Researcher's position and reflexivity in qualitative research. *Qualitative Research*, 15(2), 219–234.

Bloomberg, L.D. & Volpe, M. (2019) *Completing your Qualitative Dissertation: A road map from beginning to end* 4th Edition. CA: Sage.

Braun, V. & Clarke, V. (2006) Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2). pp. 77-101

Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education*. 7th Edition. London: Routledge.

Lincoln, Y., Lynham, S., & Guba, E. (2013). Paradigmatic controversies, contradictions, and emerging confluences, revisited. In N. Denzin & Y. Lincoln (Eds.), *The landscape of qualitative research* (4th ed., pp. 199–266). Thousand Oaks, CA: SAGE.

McGuire, M. & Delahunt, B. (2017) Doing a Thematic Analysis: A Practical, Step by Step Guide for Learning and Teaching Scholars, *All Ireland Journal of Teaching and Learning in Education*, 9(3), Available at:<https://ojs.aishe.org/index.php/aishe-j/article/view/335>

NFER (2013) How to Run qualitative and quantitative research. Berkshire: NFER. <https://www.nfer.ac.uk/media/2123/resm03.pdf>

